**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/02849/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

16 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar Ddeiseb P-05-1051 cyn iddi gael ei hystyried yn ffurfiol gan y Pwyllgor Deisebau.

Mae dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â phandemig COVID-19 wedi bod yn ofalus ac yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf gan SAGE a Sefydliad Iechyd y Byd, a byddwn yn parhau i weithredu yn y ffordd hon.

Er mwyn caniatáu i chwaraeon a gweithgareddau corfforol ailddechrau mewn modd diogel, sefydlodd Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Chwaraeon Cymru nifer o grwpiau cynllunio ar ein cais ni. Gofynnwyd i'r grwpiau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr amrediad o weithgareddau chwaraeon gan gynnwys Pêl-fasged Cymru, ystyried heriau mwy penodol o amgylch y themâu canlynol:

- Chwaraeon elît a phroffesiynol;
- Chwaraeon awyr agored;
- Chwaraeon dan do;
- Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden.

Diben pob grŵp yw datblygu ffordd o ailddechrau'n raddol ac ystyried cyfleoedd y gellir eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o bob adolygiad o'r rheoliadau. Mae'r grwpiau wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu canllawiau ar gyfer ailddechrau chwaraeon yn raddol. Mae Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol, gan gynnwys Pêl-fasged Cymru, hefyd wedi llunio canllawiau clir ar y camau y mae angen eu cymryd er mwyn i'w chwaraeon unigol ailddechrau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r rheoliadau sydd mewn grym yng Nghymru ar hyn o bryd yn caniatáu i weithgareddau wedi'u trefnu barhau. Mae hyn yn cynnwys amrediad eang o weithgareddau sy'n cael eu rhedeg gan fusnes, corff cyhoeddus neu sefydliad elusennol, clwb, neu gorff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer chwaraeon neu weithgareddau arall. Gallai hyn gynnwys amrediad o weithgareddau chwaraeon, cerddoriaeth a hamdden i bobl ifanc. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau a ddarperir y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol, megis clybiau neu ddosbarthiadau ar ôl ysgol. Nid yw'r rhain yn rhan o addysg ffurfiol plentyn, er bod ganddynt fanteision ehangach i ddatblygiad a llesiant plant.

Yn dilyn diwedd y cyfnod clo byr cenedlaethol, mae set newydd o reolau cenedlaethol wedi cael eu cyflwyno, sy'n ymdrin â sut y gall pobl gwrdd a sut mae'r sector cyhoeddus a busnesau'n gweithredu. Mae rhagor o fanylion am y rheolau newydd yn dilyn y cyfnod clo byr wedi cael eu cyhoeddi’n ddiweddar ar wefan Llywodraeth Cymru a gellir eu gweld yn y ddolen isod.

https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism